Afasic GeirfA

Anawsterau dysgu

Beth yw anawsterau dysgu?

Mae anawsterau dysgu yn derm sy'n disgrifio'r grwp eang o ddisgyblion sy'n dangos anawsterau wrth ddysgu'r sgiliau academaidd a ddysgir fel arfer yn yr ysgol.

Cafodd y term ei gydnabod yn swyddogol yn **Neddf Addysg 1981**. Athroniaeth y Ddeddf oedd, yn amodol ar amodau penodol, bod angen i bob plentyn ag anghenion arbennig gael addysg mewn ysgolion cyffredin. Ategwyd hyn gan Ddeddf Diwygio Addysg 1988, sy'n nodi bod gan bob disgybl hawl i gael cwricwlwm eang a chytbwys, gan gynnwys hawl i ddysgu'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Roedd Adroddiad Warnock, y seiliwyd Deddf 1981 arno, yn argymell na ddylid disgrifio disgyblion yn ôl categorïau o anableddau mwyach. Teimlwyd nad oedd y labeli hyn o fudd i gynnydd addysgol y plentyn oherwydd nad oeddent yn nodi anghenion y plant. Nid natur yr anabledd sy'n bwysig, ond sut y mae'n effeithio ar allu'r plentyn i ddysgu yn yr ysgol. Ni ddisgrifir disgyblion bellach yn nhermau eu hanableddau, ond fel plant sydd ag 'anawsterau dysgu'.

Disgrifir plentyn fel plentyn ag anawsterau dysgu os yw'n cael 'gryn dipyn yn fwy o anhawster wrth ddysgu na'r rhan fwyaf o blant o'r un oed' (Deddf Addysg 1993) neu anabledd sy'n ei atal rhag defnyddio ei ysgol leol. Caiff pob categori o nam eu cynnwys yn y term. Caiff anawsterau dysgu eu rhannu yn gategorïau o anawsterau **ysgafn, cymedrol** neu **ddifrifol**.

Mae'r amrywiaeth o anawsterau dysgu a brofir gan blant yn hynod eang ac amrywiol, ond mae'r nodweddion canlynol yn aml yn nodweddiadol o sut yr ymddengys y plant hyn yn yr ystafell ddosbarth:

- Gall y plentyn fod yn anaeddfed yn gymdeithasol, yn ymddwyn fel plentyn iau. Efallai y bydd ei chwarae a'i ddiddordebau yn fwy nodweddiadol o blant iau.
- Mae'r plentyn yn dysgu sgiliau newydd yn araf, ac efallai y bydd angen rhannu gweithgareddau yn gamau llai. Cyfeirir at hyn yn aml fel 'dysgu mewn camau bach'.
- Cyfyngedig yw gallu'r plentyn i gynllunio a threfnu ei waith. Efallai y bydd ganddynt anawsterau i benderfynu beth i'w wneud, beth i roi sylw iddo a beth sydd angen ei gofio.
- Efallai y bydd y plentyn yn cael anhawster i ganfod pa bwyntiau neu rannau o'r wybodaeth sy'n bwysig. Efallai y bydd yn cael anhawster i weld y berthynas rhwng syniadau, digwyddiadau, eitemau ac ati.
- Efallai y bydd y plentyn yn ei chael hi'n anodd canolbwyntio. Efallai y bydd yn edrych o amgylch neu'n symud yn fwy na phlant eraill gan dreulio llai o amser ar y tasgau neu'r gweithgareddau. Efallai y byddant yn 'gwyro o'r pwynt dan sylw'.

Mae'n bwysig i athrawon a rhieni weithio gyda'i gilydd, cyfnewid syniadau ar ffyrdd sydd wedi gweithio i helpu'r plentyn i ddysgu, a chefnogi ymdrechion ei gilydd i helpu'r plentyn i feistrioli sgiliau newydd.

Cyfeiriadau

Webster, A a McConnell, C (1987), *Children with Speech and Language Difficulties* : special needs in ordinary schools, Cassell Educational

Stott, D (1987), *Helping Children with Learning Difficulties*, Ward Lock Educational

Hegarty, S (1987), *Special Needs in Ordinary Schools*, Cassell Educational

Awgrymiadau ar gyfer deunydd darllen pellach

Fel uchod. Mae rhagor o lyfrau yn yr un gyfres â Webster a McConnell.

Advisory Centre for Education (ACE), *ACE Handbook : Special Educational Needs and the National Curriculum*

Devereux, K (1987), *Understanding Learning Difficulties,* Gwasg y Brifysgol Agored

Taflenni Geirfa perthnasol eraill

- Dyslecsia/anawsterau dysgu penodol (2)
- Oedi mewn sgiliau dysgu iaith/anhwylder dysgu iaith (3)

Sefydliadau eraill a all helpu

SNAP Cymru
10 Coopers Yard, Curran Road, Curran Road, Cardiff.
Ffôn: 029 2038 8776 (2-5pm yn unig)

Mencap
31 Lambourne Crescent, Cardiff Business Park,
Llanishen, Cardiff.
Ffôn: 029 2074 7588

Ysgrifennwyd gan Bob Daines, seicolegydd addysgol, gyda diolch i Elizabeth Auger, athrawes iaith arbenigol.